| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **3 Mehefin, 2014** |
| **PWNC** | **Ymgysylltu efo Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Adrodd ar drafodaethau diweddar a chynigion pellach ar wella ymgysylltu gydag aelodau** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Bydd aelodau'n ymwybodol iawn o'r rôl allweddol y maent yn ei chwarae ym mherthynas y Cyngor â thrigolion y sir. Bydd y rôl hwn yn dod yn fwy pwysig dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf wrth i'r Cyngor wynebu dewisiadau anodd ar y ffordd ymlaen. O ganlyniad, mae cyfathrebu ac ymgysylltu da gydag aelodau yn allweddol.

2. Adroddwyd i gyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn ar ganlyniadau gwaith cychwynnol ar asesu sut mae gwella trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu gydag aelodau. Bydd aelodau yn cofio bod hyn wedi cynnwys holiadur ymysg aelodau a hefyd gweithdai a gynhaliwyd ym Mhorthmadog a Bethel.

3. Canlyniad y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf oedd bod lle i wella trefniadau gwybodaeth a chyfathrebu a bod angen adeiladu ar rai enghreifftiau o ymarfer da. Rhan o hynny oedd bod pob aelod yn medru derbyn copi o datganiadau i'r wasg gan y Cyngor ac mae pob aelod wedi derbyn e-bost gan yr Uned Gyfathrebu i alluogi hynny

4. Yn ogystal, cytunwyd gyda'r awgrym o ddwyn grwp o gynghorwyr a swyddogion ynghyd i drafod ymhellach a chyd-gynllunio unrhyw gamau nesaf. Cyflwynwyd adroddiad i'r diben hwn i Grwp Rheoli'r Cyngor sydd wedi croesawu'r symudiad ac wedi enwebu rhai o'u plith i eistedd ar y grwp.

5. Mae trefniadau ar y gweill i gynnull y grwp ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, mae bwriad cynnal sesiwn hyfforddi / datblygu ar rôl cynghorwyr mewn cyfnod o newid mawr. Gobeithir y bydd hyn o gymorth i aelodau yn eu rôl o arwain eu cymunedau dros y blynyddoedd anodd sydd yn ein wynebu. Cynhelir y sesiwn ar 2 Gorffennaf; rhennir mwy o wybodaeth pan fydd y trefniadau yn fwy pendant.

6. Gwahoddir sylwadau'r pwyllgor ar y bwriadau hyn.